

## CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

### COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH, 12 GORFFENAF 2022 AM 7.00 O'R GLOCH

#### YN Y GANOLFAN TALYSARN

- PRESENNOL** - Gwyndaf Roberts (cadeirydd), Hefina Roberts, Christine Hughes - Llanllyfni, Harry Owen, Peter Bridges – Talysarn, Barry Bracegirdle, Erfyl Williams, Justin Davies – Penygroes.

**YMDDIHEURIADAU** - Judith Humphreys, Ceri Owen - Penygroes, Ffion Jones - Nantlle, Gareth Jones, Siân Dafydd - Talysarn, Cyngorydd Peter Thomas.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod a estynnwyd croeso arbennig i Christine Hughes fel cyngorydd newydd dros ward Llanllyfni.
- DATGAN BUDDIANT PERSONOL YNGLŶN AG UNRHYW EITEM A DRAFODIR** - Nid oedd neb yn datgan buddiant.
- CYWIRDEB COFNODION CYFARFODYDD LLAWN 14 MEHEFIN A 27 MEHEFIN 2022** - Cynigiodd Barry Bracegirdle bod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd gan Harry Owen.
- MATERION YN CODI O'R COFNODION AC YMATEBION CYNGOR GWYNEDD - Wal Ffordd Chwarel Nebo** - adroddwyd bod y Cyngorydd Dafydd Davies mewn cysylltiad gyda Chyngor Gwynedd am hyn. **Toiledau Penygroes** - dal dim ymateb wedi ei dderbyn am y cais am wybodaeth.
- ADRODDIADAU GAN Y CYNGHORWYR SIR** - Roedd adroddiad wedi ei dderbyn gan Cyng. Peter Thomas ac yn ei absenoldeb diolchwyd iddo am ei adroddiad a'i waith. Nid oedd dim yn codi o'r adroddiad.
- MATERION PENTREFI - PENYGROES** - Cwtin - angen gofyn i'r contractwyr dorri'r drain sydd ynghlwm i'r cae chwarae. Y llwybr cerdded o Tanbryn i Lôn Eifion eisiau ei dorri ar fyrder. Ffordd Yr Wyddfa -angen gofyn am eglurhad o beth sydd yn mynd ymlaen gyda'r gwaith sydd yn cael ei gario allan yno. Problem gyda cheir yn parcio ar y palmentydd yn y Stryd Fawr ac yn creu traffic heb son am fod yn beryglus. Ail-gylchu - a oes yna unrhyw beth wedi ei wneud am hyn ar ôl i Gyngor Gwynedd fynd a'r biniau? Angen holi beth sydd yn digwydd. **TALYSARN** - B4418 - pan yn bwrw yn drwm mae'r gyliau yn gorlifo ac yn creu pyllau dŵr peryglus yn y ffordd. Hefyd y llain glaswellt ar ochr y ffordd yn tyfu allan i'r lôn erbyn hyn. Y biniau baw cŵn yn llawn sydd yn golygu bod pobl yn gadael y bagiau ar y llawr. **LLANLLYFNI** - Unwaith eto baw ci yn broblem. Drain wedi tyfu allan i'r palmant rhwng Stad Ger Y Llan a Tan Y Ffynnon sydd yn golygu bod pobl yn gorfod mynd allan i'r ffordd fawr i basio wrth gerdded. **NEBO** - arwydd Nebo wrth Frondeg wedi ei droi ac arwydd Garndolbenmaen wrth gyffrôdd Parc wedi diflannu. Y clerch i gysylltu gyda'r gwahanol adrannau/sefydliadau ynglŷn â'r materion hyn sydd wedi eu codi.
- AELODAU SEFYDLOG IS-BWYLLGORAU** - Trafodwyd a phenderfynwyd i'r aelodau sefydlog aros yr un fath, heblaw am y rhai nad ydynt ar y cyngor bellach. Pwysleisiwyd bod unrhyw un yn cael mynychu'r is-gyfarfodydd nid oes raid iddynt fod yn aelodau sefydlog.
- CYFARFODYDD IS-BWYLLGORAU - CPD TALYSARN CELTS** - Roedd pawb wedi derbyn copi o'r cofnodion ymlaen llaw. Aethpwyd drwyddynt ac adroddwyd gan fod problem gyda'r dŵr poeth yn yr ystafell newid yna nid oedd modd cario allan y profion perthnasol oedd ei angen ar y dŵr. Trafodwyd a chytunodd Justin Davies y buasai yn gofyn i blymwr fynd yno i gael golwg ar beth oedd y broblem, ac adrodd yn nôl. Trafodwyd a chynigwyd y dylid rhoi hysbyseb allan ar gyfer cael

prisiau i wneud y drysau. Cytunwyd yn unfrydol gyda'r cynnig hwn. Dyddiad cau ar gyfer hyn wedi ei bennu ar 22 Gorffennaf. Yn dilyn hyn cynnal cyfarfod i drafod y prisiau. Adroddwyd bod y gwaith angenrheidiol a oedd angen ei wneud yn dilyn o'r adroddiad trydanol wedi ei wneud bellach. Gofynnwyd i'r clerc e-bostio cadeirydd y clwb i adael iddo wybod beth sydd yn mynd ymlaen ac i ategu bod y Cyngor Cymuned yn gefnogol ac yn awyddus iawn i bethau fynd yn eu blaenau ond bod yna broses sydd yn rhaid ei dilyn. Cytunodd pawb i'r clerc wneud hyn. Gofynnwyd a yw yn iawn trafod y pethau hyn tu allan i'r cyfarfod, NA - mae popeth sydd yn cael ei drafod ymhob cyfarfod yn gyfrinachol hyd nes bod y cofnodion yn cael eu cyhoeddi yn gyhoeddus.

9. **TAFLEN ARIANNOL A CHYLLID** - Roedd pawb wedi derbyn copi o'r gyllideb cyn y cyfarfod a rhoddwyd cyfle i unrhyw un holi unrhyw gwestiynau. Nid oedd dim yn codi. Cynigiodd Barry i dderbyn y gyllideb a chytunodd pawb yn unfrydol.
10. **LLWYBRAU A MYNWENTYDD** - Roedd y clerc wedi derbyn y rhestr gan y contractwyr o ba lwybrau yr oeddynt wedi gweithio arnynt yn ystod y mis. Holodd Barry os oedd posib gofyn iddynt dorri'r llwybr o Hen Dŷ i giât tŷ gerllaw. Y gwaith ffensio yn Macpela heb ei orffen eto ond dim llawer o waith ar ôl - Gwyndaf am fynd i holi pryd y byddent yn gorffen yno. **TENDR PORI CAE MACPELA** - Cynigwyd y dylid rhoi tendr allan nawr i gael rhywun i bori'r tir. Cytunodd pawb. Y clerc i hysbysebu hyn yn syth. Bydd angen hefyd gwneud yn siŵr nad yw'r contractwyr yn rhoi'r gwair maent yn torri yn y cae o hyn ymlaen. **WAL MYNWENT MACPELA** - contractwyr wedi derbyn y gwaith ac am gario allan y gwaith yn fuan. **CHWYNLADDWR** - Erbyn hyn pris chwynladdwr wedi codi o £60 i £200 ac felly'r contractwyr yn gofyn a oes modd i'r Cyngor Cymuned eu digolledu am hyn. Trafodwyd a chynigwyd i dalu £100. Cynnig arall oedd i dalu £50. Eiliwyd y cynnig o dalu £100 a chytunodd pawb. **CWYN** - Y clerc wedi derbyn cwyn ynglŷn â chyflwr yr hen ddarn o fynwent Macpela oherwydd y chwyn. Adroddwyd y bydd y gwaith o waredu'r chwyn yn digwydd yn fuan.
11. **CEISIADAU CYNLLUNIO** – C22/0543/22/DT – 1 Bryn Hwylfa, Ffordd Clynnog, Penygroes – Adeiladu sied ar gyfer storio a thŷ gwydr o fewn yr ardd – DIM GWRTHWYNEBIAD.  
C22/0583/22/DT - Fferm Coed Madog, Talysarn - Estyniad unllawr ar ochr tŷ annedd –DIM GWRTHWYNEBIAD.
12. **LLYTHYR DIOLCH GAN OP HUWS** - Roedd nodyn o ddiolch wedi ei dderbyn ar ran OP Huws am yr anrheg a dderbyniodd wedi ei ymddeoliad o'r Cyngor Cymuned. Darllenwyd y llythyr i bawb.
13. **NEGES TIM HEATLEY DOROTHEA** - Darllenwyd y neges i bawb. Cynigwyd y dylid cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ofyn pam nad yw'r llinellau melyn wedi eu gosod o amgylch y cylchdro fel yr addewidwyd. Roedd Tim Heatley yn gofyn am gyfarfod gyda rhai o'r cyngor - cytunodd Gwyndaf, Harry a Peter i fynychu cyfarfod gydag o. Y clerc i drefnu dyddiad ac amser cyfleus i bawb a hefyd gwahodd Cyng. Peter Thomas.
14. **GOHEBIAETH** - Roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth isod cyn y cyfarfod er mwyn edrych drostynt ac nid oedd dim yn codi.  
Cyngor Gwynedd – Ymgynghori ar gynllun gwella hawliau tramwy  
Cyngor Gwynedd – Gweithdai Ardal Ni 2035
15. **MATERION ARIANNOL** – cytunwyd i'w talu  
R. J Electrics - £429.  
Iwan Jones Trydanwr £376.78  
Cyngor Gwynedd, Archwiliad Mewnol - £276.00

Idris ac Ifan, Contractwyr - £2280.00  
Nia Jones, Ffôn a rhyngwyd - £25.00

16. **UNRHYW FATER ARALL** - Gofynnwyd a oedd posib cael rhestr a manylion cyswllt pawb ar y cyngor cymuned. Gofynnwyd beth yw'r diweddaraf gyda goleuadau Nadolig Llanllyfni - adroddwyd eu bod wedi eu harchebu yn barod.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod.